Grŵp Llandrillo Menai

Ysbrydoli Llwyddiant
Inspiring Success

Cynllun Strategol
Strategic Plan
2015-2018

gllm.ac.uk

Cyflwyniad
Introduction

Lluniwyd y cynllun strategol ar gyfer 2015 - 2018 mewn ymgynghoriad â llywodraethwyr, cynrychiolwyr myfyrwyr, timau rheoli a staff. Mae'n disgrifio ble rydym am ei gyrraedd a sut rydym am redeg ein sefydliad dros y blynyddoedd nesaf.

Yma yng Ngrŵp Llandrillo Menai, mae'r corff llywodraethu, y tîm rheoli a'r staff yn ymrwymedig i ysbrydoli a chymell ein myfyrwyr i lwyddo. Rydym am greu cyfleoedd, gwaith a sicrhau ffyniant yn rhanbarth Gogledd Orllewin Cymru.

Ers ei sefyldu yn 2012, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r Grŵp wedi gwella'n barhaus gyfraddau llwyddo ei ddysgwyr galwedigaethol a dysgwyr yn y gweithle. Rydym wedi buddsoddi mewn amgylcheddau dysgu o safon uchel ac rydym yn bwriadu parhau i wneud hynny pryd bynnag y bydd cyfle'n codi. Gwelwyd datblygiadau cyffrous yn Ninbych, Llandrillo-yn-Rhos a Dolgellau. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu ein campysau yn Llangefni a Bangor yng ngham nesaf ein buddsoddiad cyfalaf.

Bydd y gwaith rydym yn ei wneud gyda chyflogwyr yn parhau i fod yn nodwedd allweddol ac rydym yn arbennig o frwd a chyffrous ynghylch gweithio gyda Hitachi a Horizon wrth i fenter Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd ddatblygu. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd gwaith gwych i bobl ifanc ac oedolion ac rydym yn datblygu ystod o gyrsiau a chymwysterau a fydd yn rhoi'r profiad a'r sgiliau angenrheidiol i bobl leol allu gweithio mewn pwerdy niwclear technoleg uwch.

Mae llawer o fentrau twristiaeth cyffrous yn datblygu yng Ngogledd Cymru ac rydym yn chwilio i sefydlu partneriaethau a threfniadau ar y cyd gyda nifer o'r busnesau hyn er mwyn eu helpu gyda recriwtio a sgiliau'r gweithle.

Rydym yn falch o wasanaethu ein pobl ifanc a'n cymunedau ac o'u symbylu a'u hysbrydoli i lwyddo a symud ymlaen i waith neu addysg uwch. Ni fyddwn yn medru cyflawni a gwireddu nodau a gobeithion y cynllun strategol hwn heb ymrwymiad, brwdfrydedd, ymroddiad a sgiliau'r staff ardderchog sy'n gwneud Grŵp Llandrillo Menai yn lle gwych i ddysgu ac i weithio ynddo.

The strategic plan for the period 2015 - 2018 has been developed in consultation with governors, student representatives, management teams and staff. It sets out where we want to be and how we want to run our organisation over the next few years.

At Grŵp Llandrillo Menai, the governing body, management team and staff are committed to inspiring and motivating our students to succeed. We want to generate opportunity, employment and prosperity in the North West Wales region.

The Grŵp has, over the last few years since its establishment in 2012, continually improved the success rates of its vocational students and work-based students. A Level results are also above the Welsh and UK averages. We have invested in high-quality learning environments and have plans to continue doing so wherever opportunities arise. There have been exciting developments in Denbigh, Rhos-on-Sea and at Dolgellau. We are prioritising the further development of our Llangefni and Bangor campuses in the next phases of capital investment.

Our work with employers will continue to be a key feature and we are particularly enthused and excited about working with Hitachi and Horizon as the Wylfa Newydd Power Station initiative develops. This will provide fantastic job opportunities for young people and adults and we are developing a range of courses and qualifications which will equip local people with the skills and experiences to work at an advanced technology nuclear facility.

There are many exciting tourism initiatives developing in North Wales and we are seeking partnerships and joint arrangements with many of these businesses to help them with recruitment and work-place skills.

We are proud to serve our young people and communities and to motivate and inspire them to succeed and progress to future work or higher education. We could not achieve any of the goals or ambitions within this strategic plan without the commitment, shared enthusiasm, dedication and skills of an excellent team of staff who make Grŵp Llandrillo Menai a great place to learn and work.

Cenhadaeth Mission

Ysbrydoli llwyddiant drwy ddarparu addysg a hyfforddiant ardderchog.

Inspiring success by providing excellent education and training.



Ein Gwerthoedd
Our Values

Proffesiynoldeb

Arloesedd

Rhagoriaeth a

Chydraddoldeb

Ein nod yw sicrhau fod ein holl ddysgwr yn cael eu trin â pharch a'n bod yn eu harfogi gyda'r sgiliau a'r rhinweddau i lwyddo mewn bywyd.

Equity

Quality

Innovation

Professionalism

Our aim is to ensure that all our learners are treated with respect and that we equip them with the skills and qualities to succeed in life.

Beth mae hyn yn ei olygu i staff.

Bydd ein staff:

- Yn trin pob dysgwr, staff eraill, ymwelwyr a chleientiaid gyda pharch a chwrteisi
- Yn parchu ac yn dathlu amrywioldeb
- Yn hyrwyddo ethos Cymreig ac yn parchu hawliau ieithyddol dysgwyr a staff
- Yn gwrando ar ac yn ymateb i farn dysgwyr
- Yn sicrhau bod dysgwyr yn ganolog i'w holl weithgareddau
- Yn ymrwymedig i ragoriaeth, beth bynnag fo eu rôl
- Yn ymroddedig i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac yn agored i syniadau newydd
- Yn hyrwyddo'r safonau uchaf o ran diogelwch a lles
- Yn parchu'r amgylchedd ac yn defnyddio adnoddau a chyfleusterau mewn ffordd gynaliadwy
- Yn anelu at fod yn arloesol yn y modd y maent yn darparu gwasanaethau i ddysgwyr, cyflogwyr a chleientiaid
- Yn cydweithio'n gydlynol gyda chydweithwyr a phartneriaid
- Yn gweithio mewn ffordd sy'n ymgyrraedd at ddarparu gwerth am arian.

What this means to staff.

Our staff will:

- Treat all students, other staff, visitors and clients with respect and courtesy
- Respect and celebrate diversity
- Promote a Welsh ethos and respect the linguistic rights of students and staff
- Listen and respond to the views of students
- Ensure that students are central to all of their activities
- Be committed to excellence, whatever their role
- Be committed to continuous professional development and open to new ideas
- Promote the highest standards of safety and well-being
- Respect the environment and use resources and facilities in a sustainable manner
- Aim to be innovative in the ways in which they provide services to students, employers and clients
- Work collaboratively with colleagues and partners
- Work in ways which aim to provide value for money.

Beth mae hyn yn ei olygu i ddysgwyr.

Bydd ein dysgwyr:

- Yn trin ei gilydd, staff ac ymwelwyr gyda pharch a chwrteisi
- Yn parchu ac yn dathlu amrywioldeb
- Yn ymfalchïo yn niwylliant a iaith Cymru
- Yn barod i leisio barn a chyfranogi yn eu cymunedau
- Yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd addysg a hyfforddiant a ddarperir ar eu cyfer
- Yn ymgyrraedd at y safonau cyflawni uchaf
- Yn ymddwyn mewn ffordd gyfrifol sy'n parchu eu lles a'u diogelwch eu hunain ac eraill
- Yn parchu'r amgylchedd a'r adnoddau a ddarperir ar eu cyfer
- Yn cydweithio'n effeithiol ac yn broffesiynol gyda'u cyd-ddysgwyr
- Yn ymdrechu i ddatblygu eu hyder a'u cyflogadwyedd.

What this means to students.

Our students will:

- Treat each other, staff and visitors with respect and courtesy
- Respect and celebrate diversity
- Take pride in the culture and language of Wales
- Make their views heard and participate in their communities
- Take full advantage of the education and training opportunities provided to them
- Aspire to the highest standards of achievement
- Conduct themselves responsibly, respecting their own well-being and safety and that of others
- Respect the environment and the resources provided for them
- Collaborate effectively and professionally with their peers
- Strive to develop their confidence and employability skills.

Gwynt y Môr
Offshore Wind Farm

Llandrillo

rillo

Nodau Strategol
Strategic Goals

Nod Strategol 1

Sicrhau llwyddiant rhagorol i'n myfyrwyr

Byddwn yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- Darparu addysg a hyfforddiant di-ail a chefnogi dysgu effeithiol
- Darparu amgylchedd dysgu a chwricwlwm sy'n ysbrydoli gan ymwreiddio cyflogadwyedd
- Cynyddu cyfran y myfyrwyr sy'n symud ymlaen i waith, prentisiaethau neu addysg uwch
- Bod yn ddarparwr arweiniol ym maes addysg a hyfforddiant ôl-16 dwyieithog.

Strategic Goal 1

Achieve excellent student success

We will achieve this by:

- Delivering outstanding teaching and training and supporting effective learning
- Providing an inspiring learning environment and curriculum offer which embeds employability and enterprise
- Increasing the proportion of students who progress to employment, apprenticeships or higher learning
- Being the leading provider of bilingual post-16 education and training.

Nod Strategol 2

Cefnogi anghenion sgiliau cyflogwyr yn economi ffyniannus Gogledd Cymru.

Strategic Goal 2

Support employer skills needs in a growing North Wales economy.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- Gweithio gyda chyflogwyr a chyrff eraill i adnabod gofynion sgiliau a hyfforddiant fel sail i'n cwricwlwm
- Meithrin perthynas strategol gyda Hitachi, Horizon a chadwyn gyflenwi Ynys Ynni
- Darparu ystod o wasanaethau arbenigol, llwybrau sgiliau uwch a phrentisiaethau o safon uchel
- Sicrhau cyllid prosiectau ychwanegol i gefnogi mentrau hyfforddi cyflogwyr
- Hybu adfywiad a thargedu anweithgarwch economaidd drwy hyfforddiaethau a gweithgareddau cyfranogol eraill, gan gynnwys oedolion sy'n chwilio am waith.

We will achieve this by:

- Working with employers and other bodies to identify skills and training requirements to inform our curriculum offer
- Nurturing a strategic relationship with Hitachi, Horizon and the Energy Island supply chain
- Providing a range of high-quality apprenticeships, higher skills routes and specialist services
- Securing additional project funds to support employer training initiatives
- Promoting regeneration and targeting economic inactivity through traineeships and other engagement activities, including adults seeking employment.

Nod Strategol 3

Darparu cyfleoedd addysg a hyfforddiant drwy bartneriaethau a rhwydweithiau effeithiol

Byddwn yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- Parhau i gydweithio'n gadarnhaol o fewn partneriaethau 14-19
- Ehangu ein partneriaethau rhanbarthol â darparwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach
- Cefnogi partneriaethau cydweithredol lleol, gan gynnwys Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Arwain y Consortiwm Dysgu yn y Gweithle'n effeithiol
- Chwarae rôl arweiniol ym maes Dysgu Oedolion yn y Gymuned ac ym maes Adfywio
- Gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol
- Datblygu a darparu cyrsiau ar gyfer dysgwyr rhyngwladol.

Strategic Goal 3

Deliver education and training opportunities through effective networks and partnerships

We will achieve this by:

- Continuing to work positively in 14-19 partnership arrangements
- Extending our regional partnerships with Higher Education and Further Education providers
- Supporting local collaborative partnerships, including the North Wales Economic Ambition Board
- Effectively leading the Work-based Learning Consortium
- Being a key driver in Adult Community Learning and regeneration
- Working with international partners
- Developing and delivering courses for international learners.

Nod Strategol 4

Bod yn sefydliad cynaliadwy sy'n sefydlog yn ariannol.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- Uchafu'r incwm a gynhyrchir ac effeithiolrwydd ein gweithrediadau
- Datblygu seilwaith sy'n cefnogi llwyddiant myfyrwyr
- Uchafu'r incwm a gynhyrchir ac effeithlonrwydd ein gweithrediadau
- Cynnal gweithle iach a diogel sy'n amgylcheddol gyfrifol
- Datblygu cynlluniau buddsoddi er mwyn blaenoriaethu gwariant ar seilwaith a'r ystadau.

Strategic Goal 4

Be a sustainable and financially stable organisation.

We will achieve this by:

- Maximising our income generation and efficiency of operation
- Developing an infrastructure that supports student success
- Developing talent through continuing professional development
- Maintaining a healthy, safe and environmentally responsible workplace
- Developing investment plans to prioritise estates and infrastructure expenditure.

Dylan Evans
Lefel A
A Levels
Coleg Llandrillo

Enwyd Dylan Evans yn un o dri myfyriwr Ffiseg gorau Cymru. Enillodd fedal arian yng nghystadleuaeth Olympiad Ffiseg Prydain ynghyd â theitl 'Prif Fyfyriwr y Flwyddyn' yng Ngholeg Llandrillo. Ar ôl cwblhau ei astudiaethau yn y Coleg, aeth Dylan ymlaen i astudio Ffiseg Ddamcaniaethol ym Mhrifysgol Manceinion.

Dylan Evans was named as one the top three students in Wales. He won a silver medal at the British Physics Olympiad (BPhO) and won the 'Overall Student of the Year' at Coleg Llandrillo. After completing his studies at the College, Dylan moved on to study Theoretical Physics at Manchester University.

Owain Jones
Gwaith Saer
Carpentry
Coleg Meirion-Dwyfor

Y tro cyntaf iddo roi cynnig ar gystadleuaeth Sgiliau Cymru, enillodd Owain y wobr aur. Aeth yn ei flaen i ennill y fedal aur yng nghystadleuaeth gwaith saer UK Skills ac enwodd Asiantaeth Reoli'r CITB ef yn Brentis y Flwyddyn, Cymru. Cafodd ei ddewis hefyd yn aelod o dîm UK WorldSkills, ac enillodd fedal rhagoriaeth.

Owain achieved gold in his first attempt in the Welsh Skills competition. He won gold in the UK Skills carpentry competition and was the CITB Managing Agency 'Apprentice of the Year' for Wales. He was also selected as part of the UK WorldSkills Team, winning a medal of excellence.

Nia Lloyd Roberts
Gradd Sylfaen mewn Celf a Dylunio
Foundation Degree in Art & Design
Coleg Menai

Astudiodd Nia Lloyd Roberts y Radd Sylfaen mewn Celf a Dylunio gan barhau i weithio fel Therapydd Celf ac arfer ei chrefft fel artist.

Nia Lloyd Roberts studied the Foundation Degree in Art & Design whilst also continuing to work both as an Art Therapist and a practicing artist.